

PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 7 GORFFENNAF 2021

Ynn
bressenol: Aelodau Annibynnol: James Downe (Cadeirydd),
Hollie Edwards-Davies, Jason Bartlett, Arthur Hallett a/ac
Chrissie Nicholls

Cynghorwyr Cunnah, Sandrey a/ac Williams

Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas

96 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb. Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'n hwyr yn mynychu.

97 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol fuddiant rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 7.

98 : AELODAETH Y PWYLLGOR A CHYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 27 Mai 2021, wedi ailbenodi'r Cynghorwyr Cunnah, Sandrey a Williams i'r Pwyllgor a chytuno ar y Cylch Gorchwyl.

99 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod ar 3 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

100 : CODAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rhodddwyd adroddiad a gwybodaeth i'r Pwyllgor er mwyn gallu ystyried datblygu cod egwyddorion cyfryngau cymdeithasol i Aelodau; a chod ymarfer ar ddefnydd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda'r Cyngor, yn unol â'r Cynnig a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2021, ac oherwydd pryderon mwy diweddar a godwyd o ganlyniad i sylwadau a honiadau a wnaed am aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

Trafododd yr Aelodau nifer o bynciau:

- a ddylid cynghori Cynghorwyr i beidio â 'hoffi' negeseuon cyfryngau cymdeithasol heb eu darllen yn gyntaf, gan nodi bod enghreifftiau wedi bod yn y gorffennol o ddeunydd amhriodol yn cael ei 'hoffi';
- pwysigrwydd ymgynghori â phartneriaid allanol ym maes y cyfryngau cymdeithasol, megis Glitch, a allai ddarparu arweiniad a chyngor ychwanegol;
- dylai camau gweithredu a phenderfyniadau a wneir gan Gyngorwyr unigol yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau'r Cabinet fod yn agored i feirniadaeth; Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y fersiwn ddiweddaraf o'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng

beirniadaeth bersonol unigolion a beirniadaeth o'u penderfyniadau a'u gweithredoedd polisi;

- pryderon ynghylch defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol dienw; Byddai cynghorwyr, yn y cod, yn cael eu cynghori i beidio â defnyddio cyfrifon o'r fath;
- a oedd angen i'r Cod Cyfryngau Cymdeithasol gael ei ymgorffori yn y Cod Ymddygiad, er y nodwyd pe na bai Cynghorwyr yn trin eraill â pharch, a byddai hyn yn berthnasol i sylwadau a wnaed ar y Cyfryngau Cymdeithasol, y byddai'n bosibl y byddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei dorri; Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl gwneud egwyddorion y Cod Cyfryngau Cymdeithasol yn orfodadwy yn gyfreithiol mewn perthynas â phartïon allanol. Y gobaith yw y byddai partïon allanol, er enghraifft Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, yn barod i ymuno â'r Cod, er y byddai anawsterau o ran gorfodi bryd hynny; a'r
- graddau cyfyngedig y mae'r materion yn effeithio ar Gynghorwyr Cymuned. Pe bai hynny'n newid, efallai y byddai Cynghorwyr Cymuned am ymrwymo iddo.

PENDERFYNWYD:

- nodi y byddai Codau Cyfryngau Cymdeithasol drafft yn cael eu dwyn yn ôl i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

101 : CWYNION COD YMDDYGIAD YR AELODAU (CH4 2020-21 A CH1 2021-22)

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion a wnaed yn ystod Chwarter 4 2020-21 a Chwarter 1 2021-22 yn erbyn Aelodau Cyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd, gan honni torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod nifer o gwynion yn ymwneud â materion penodol mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio, a bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio yn y rhan fwyaf o achosion.

Nododd yr Aelodau fod un gŵyn wedi'i chyfeirio at y Panel Gwrandawiadau a bod y prosesau cyn y gwrandawriad ar y gweill.

PENDERFYNWYD:

- i nodi cynnwys yr adroddiad.

102 : DATGANIADAU BUDDIANNAU PERSONOL UWCH SWYDDOGION

Ail-bwysleisiodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ei buddiant yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod wrth drafod yr eitem hon.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn adolygu'r datganiadau buddiannau personol a wnaed gan Uwch Swyddogion y Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Buddiannau Busnes Uwch Swyddogion wedi'u cyhoeddi ers 2019.

PENDERFYNWYD:

- bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar wybodaeth a gynhwysir yn Atodiad B yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 12, rhan 4 o Atodlen 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â datganiadau buddiannau personol uwch swyddogion

103 : ARSYLWI CYFARFODYDD

Datganodd y Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas fuddiant personol, ar y sail ei fod yn Gyngorydd Cymuned sy'n eistedd ar Gyngor Cymuned Pentyrch.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar yr adborth a ddarparwyd yn dilyn arsylwi cyfarfodydd (cyfarfod o'r cyngor cymuned a chyfarfod pwyllgor cynllunio).

Trafododd yr Aelodau sylw mewn perthynas â'r methiant i ddilyn gweithdrefnau un Cyngor Cymuned mewn perthynas â chyhoeddi'r agenda a'r cofnodion. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda chlerc perthnasol y Cyngor.

Nododd yr Aelodau, ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – o 1 Ebrill ymlaen, fod yn ofynnol i Gyngorau Cymuned, o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod, gyhoeddi enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod; unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb; unrhyw ddatganiadau o fuddiant; unrhyw benderfyniadau a wneir; a chanlyniad unrhyw bleidleisiau.

PENDERFYNWYD:

- nodi'r adborth arsylwi ar y cyfarfod a dderbyniwyd a pharhau i arsylwi ar gyfarfodydd priodol y Cyngor, y Pwyllgorau a'r Gyngorau Cymuned.

104 : BLAENGYNLLUN GWAITH

Derbyniodd y Pwyllgor y Rhaglen Waith ar gyfer 2021-22 a chawsant wahoddiad i wneud sylwadau ac awgrymiadau ar y Rhaglen.

Nododd y Pwyllgor:

- yr hyfforddiant sefydlu yn y cyfnod cyn i'r Etholiadau Lleol gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r angen i hyfforddiant Cod Ymddygiad fod yn orfodol;
- y ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno'r ddyletswydd newydd mewn perthynas ag Arweinwyr Grŵp yn gorfod hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau o'u grwpiau eu hunain. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid ymestyn hyfforddiant i Ddirprwy Arweinwyr Grŵp a'r Chwipiadau; a
- byddai'r Adroddiad Codau Cyfryngau Cymdeithasol ar gael erbyn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD:

- nodi a chytuno ar y Rhaglen Waith

105 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

106 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

The meeting terminated at 6.09 pm